OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2019 Rhif 977 (Cy. 168)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Pwll-glas, ger Rhuthun, Sir Ddinbych) (Terfynau Cyflymder 50 mya a 40 mya) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *22 Mai 2019* |
| *Yn dod i rym* | *27 Mai 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A494, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1)(a), (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Pwll-glas, ger Rhuthun, Sir Ddinbych) (Terfynau Cyflymder 50 mya a 40 mya) 2019 a daw i rym ar 27 Mai 2019.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel.

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A494 Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**Dirymu**

**5.** Mae Gorchymyn Cefnffordd (Pwll-glas, Clwyd) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 1982(3) drwy hyn wedi ei ddirymu.

---

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

(3) O.S. 1982/506.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 22 Mai 2019

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

# YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

## TERFYN CYFLYMDER 50 MYA

Y darn o gefnffordd yr A494 sy'n ymestyn o bwynt 90 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sirol wrth Bont Eyarth sy'n arwain at Lanfair Dyffryn Clwyd hyd at bwynt 691 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt y gyffordd honno.

## ATODLEN 2

## TERFYN CYFLYMDER 40 MYA

Y darn o gefnffordd yr A494 sy'n ymestyn o bwynt 90 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sirol wrth Bont Eyarth sy'n arwain at Lanfair Dyffryn Clwyd hyd at bwynt 1656 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.